# Gwaharddiadau
*Exclusions*

Owain Arwel Davies

*Arweinydd Addysg Gynhwysol / Inclusive Education Leader*

John Eifion Jones

*Swyddog Lles a Chynhwysiad / Welfare and Inclusion Officer*

# Trefn Cofnodi Gwaharddiadau
*Recording Procedure for Exclusions*

Penaethiaid wedi derbyn ebost a llythyr 27/09/2018
*An e-mail and a letter sent to Headteachers*

Pam? Lleihau baich gwaith ac Adrodd ar waharddiadau
*Why? Reducing workload and Reporting exclusions*
*Llythyrau/ Ffurflenni / Letters/Forms*

Canllawiau Llywodraeth Cymru /*Welsh Government Guidelines*

Angen darparu gwaith dros gyfnod y gwaharddiad
*The need to provide work over the period of the exclusion*

## Gwaharddiadau / *Exclusions*
## John Eifion Jones

**Y Penderfyniad i Wahardd / *The Decision to Exclude***

Yn yr achosion a ganlyn yn unig y dylid penderfynu gwahardd dysgwr:
*The decision to exclude a learner should only be determined in these cases:*

- mewn ymateb i ddigwyddiad sy'n golygu bod polisi ymddygiad yr ysgol wedi'i dorri yn ddifrifol / *in response to an incident which involves a serious breach of school rules*

ac / *and*

- os byddai caniatáu i'r dysgwr aros yn yr ysgol yn cael effaith andwyol ddifrifol ar addysg neu les y dysgwr hwnnw neu eraill yn yr ysgol. / *if permitting the learner to stay at school would have a serious detrimental impact on the education or welfare of the learner or others at the school.*

## Gwaharddiadau
## *Exclusions*

Y Pennaeth yn unig sydd â'r hawl i wahardd / *Only the Headteacher has the right to exclude*

**Cam Olaf** ydy gwahardd

*Exclusion is the* **Last Step**

Mae disgwyl i'r ysgol ddefnyddio strategaethau eraill i geisio osgoi gwaharddiad / *The school is expected to use alternative strategies to attempt to avoid exclusion*

## Enghreifftiau o strategaethau i osgoi gwahardd:
## *Examples of strategies to avoid exclusion:*

Rhaglenni Cymorth Bugeiliol
*Pastoral Support Programmes*

Cyfiawnder Adferol
*Restorative Justice*

Gwaharddiad Mewnol
*Internal Exclusion*

Symud Trwy Drefniant
*Managed Move*

## Enghreifftiau o strategaethau i osgoi gwahardd:
## *Examples of strategies to avoid exclusion:*

Cefnogaeth gan yr Awdurdod/ Strategaeth ADYaCh

Support from the Authority/ALN&I Strategy

# Cyfeirio disgyblion i'r Fforwm Ardal
## *Referring pupils to the Area Forum*


- Fforwm bob hanner tymor / *A forum every half term*
- Athrawon a chymorthyddion arbenigol mewn meysydd penodol gan gynnwys 'Cynnal ymddygiad' / Specialist teachers and assistants in specific fields, including 'Behaviour spport'
- Cefnogaeth i'r Ysgol a'r disgyblion am gyfnodau penodol / *Support for the School and the pupils for specific periods*
- Cefnogaeth os yn berthnasol i lunio CDU Awdurdod am gefnogaeth / *If relevant, support to draw up an Authority IDP for support*

# Cyfeirio disgyblion i Llechan Lân a Pecyn 25 /*Pupil Referral*


- Cylch Gorchwyl – Panel Cymedroli Cynhwysiad (newydd)
- Dyddiadau Pwysig
- Be sydd angen digwydd?
- *Terms of Reference - Inclusion Moderation Panel (new)*
- *Important Dates*
- *What do you need to do?*

# Trosolwg/*Overview*

## Dogfen/*Document*




# Cyn Cyfeirio/*Before Referral*





Proffil un Tudalen / *One Page Profile*

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/ADYaCH/Pecyn-Hyfforddiant-Cydlynwyr/Proffil-Un-Tudalen---One-Page-Profile.pdf

CDU / *IDP*

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Cydlynwyr-ADY-a-CH-Gwynedd-ac-Ynys-Môn.aspx

# Cyn *Cyfeirio/Before Referral*




# Ystyriaethau Ychwanegol
## *Additional Considerations*

1.16 Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) / *Additional Learning Needs (ALN)*

1.17 Cydraddoldeb / *Equality*

1.18 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) / *United Nations Convention on the Rights of the Child (UNCRC)*

1.19 Plant Mewn Gofal (PMG) / *Looked-after Children (LAC)*

# Hyd Gwaharddiadau Penodol 1.7
## *The Length of Fixed Term Exclusions 1.7*

Dylai unrhyw waharddiad fod am y cyfnod byrraf posib / *Any exclusion should last the shortest possible amount of time*

Gwaharddiad o fwy na diwrnod neu ddau yn ei gwneud yn anoddach i ddisgybl ailintegreiddio / *An exclusion of any longer than a day or two makes it more difficult for a pupil to re-integrate*

Tystiolaeth o arolygiadau (Estyn) - rhwng 1 a 3 diwrnod yn ddigon i waharddiad gael effaith heb niweidio addysg y disgybl / *Evidence from inspections (Estyn) – between 1 and 3 days is a sufficient exclusion to have an impact without harming the pupil's education*

# Gwaharddiadau Penodol
## *Fixed Term Exclusions*

Mae dyletswyddau'r Panel yn ddibynnol ar sawl diwrnod o waharddiad y mae disgybl wedi ei dderbyn mewn unrhyw dymor ysgol / *The duties of the Panel depend on how many days of exclusion the pupil has received in any school term*

Mae hawliau Rhieni yn newid wrth i nifer y dyddiau o waharddiad gynyddu mewn un tymor neu mewn un cyfnod: / *Parents' rights change as the number of exclusion days increase in one term or one period:*

***0 – 5** Hawl i gyflwyno Sylwadau ysgrifenedig i'r Panel Disgyblu /* A right to submit written observations to the Disciplinary Panel
***6 – 15** hawl i ofyn am wrandawiad gan y Panel Disgyblu /* A right to ask for a hearing from the Disciplinary Panel
***16 +** Panel Disgyblu yn cael ei gynnal /* A Disciplinary Hearing will be held

Dim hawl i newid hyd Gwaharddiad Penodol / *No right to change the length of Fixed Term Exclusions*

# Gwaharddiad Parhaol
# *Permanent Exclusions*

Un digwyddiad difrifol e.e. / *One serious incident, e.g.*

- Trais difrifol wedi'i gyflawni neu wedi'i fygwth yn erbyn dysgwr arall neu aelod o staff / *Serious violence has been performed or threatened against another learner or staff member*
- Camdriniaeth neu ymosodiad rhywiol / *Sexual abuse or attack*
- Cyflenwi cyffur anghyfreithlon / *Supplying illegal drugs*
- Defnyddio neu fygwth defnyddio arf peryglus / *Using or threatening to use a dangerous weapon*

neu / *or*

gyfres o droseddau o dan **<u>bolisi disgyblaeth / ymddygiad yr ysgol</u>** / *a series of offences under the* ***<u>school's discipline / behaviour policy</u>***

# Gwaharddiadau Parhaol
# *Permanent Exclusions*

Mewn achos o waharddiad parhaol mae'n rhaid i Banel Disgyblu'r Llywodraethwyr gyfarfod / *In a case of permanent exclusion, the Governors' Disciplinary Panel must meet*

Rhaid i'r Panel fod yn gwbl ddi-duedd / *The Panel must be completely impartial*

Mae gan y disgybl a'r teulu hawl i fod yn y cyfarfod a chael cynrychiolaeth gyda nhw e.e. SNAP / Cyfreithiwr, ac ati / *The pupil and the family have a right to be at the meeting and have representation with them, e.g. SNAP / Solicitors, etc.*

# Y Drefn Wahardd a Chyfrifoldebau'r Panel Disgyblu / *The Exclusion Procedure and the Responsibilites of the Disciplinary Panel*

## **<u>Aelodaeth o'r Panel / *Panel Membership*</u>**

Teulu a'u Cynrychiolwyr / *Family and their Representatives*

Lleiafswm o dri aelod o'r Llywodraethwyr / *A minimum of three Governors*

Clerc y Llywodraethwyr / *The Clerk to Governors*

Swyddog o'r Awdurdod Addysg Lleol / *An Officer from the Local Education Authority*

# Gwaharddiadau Parhaol
# *Permanent Exclusions*

**<u>Y Clerc</u>** sydd i gydlynu'r Panel Disgyblu a gohebu â phawb o fewn amserlen benodol (gweler y Canllawiau) / ***<u>The Clerk</u>*** *will co-ordinate the Disciplinary Panel and correspond with everyone within a specific timetable (see the Guidelines)*

Panel Disgyblu o fewn 15 diwrnod i hysbysu'r rhieni o'r penderfyniad. / *Disciplinary Panel within 15 days of informing the parents of the decision.*

Gellir ymestyn y cyfnod os oes angen i sicrhau chwarae teg i bawb/dyddiad cyfleus i bawb / *The period could be extended if required to ensure fairness to everyone/a convenient date for everyone.*

Dogfennaeth (yn cynnwys tystiolaeth) i'w gyflwyno i bawb dim llai na 5 diwrnod cyn y Panel. / *Documentation (including evidence) to be submitted to everyone no later than 5 days before the Panel.*

**<u>Sicrhau fod gwaith yn cael ei osod a'i farcio gan yr Ysgol / *Ensure that work is set and marked by the School*</u>**

# Trefn y Gwrandawiad
# The Hearing Procedure

Y Pennaeth i gyflwyno achos yr Ysgol dros wahardd yn barhaol / *The Headteacher to present the School's case for the permanent exclusion*

Y Panel a'r teulu a'u cynrychiolwyr yn cael cyfle i holi'r Pennaeth / *The Panel and the family and their representatives receive the opportunity to question the Headteacher.*

Y teulu a'u cynrychiolwyr yn cyflwyno eu sylwadau o blaid y disgybl / *The family and their representatives present their observations in favour of the pupil*

Y Panel a'r Ysgol yn cael cyfle i holi'r teulu a'u cynrychiolwyr / *The Panel and the School receive the opportunity to question the family and their representatives.*

# Trefn y cyfarfod *(Dilyniant)*
# *Meeting procedure* (Continuation)

Y Pennaeth yn cael cyfle i grynhoi / *The Headteacher receives the opportunity to summarise*

Y teulu a'u cynrychiolwyr yn cael cyfle i grynhoi / *The family and their representatives receive the opportunity to summarise*

Y Pennaeth a'r teulu a'u cynrychiolwyr yn gadael y cyfarfod / *The Headteacher and the family and their representatives leave the meeting*

Swyddog yr Awdurdod yn cynnig sylwadau a chyngor technegol (os yn berthnasol) (Swyddog yn ymadael yn arferol) / *The Authority Officer offers observations and technical advice (if relevant) (Officer usually leaves)*

Y Panel yn dod i benderfyniad (Clerc i gofnodi) / *The Panel comes to a decision (Clerk to take minutes)*

## **Gwaharddiadau /** *Exclusions*
## **Mae'n rhaid i'r panel ystyried y canlynol: /** *The Panel must consider the following:*

A yw'r holl strategaethau eraill i wella ymddygiad dysgwr wedi'u rhoi ar waith ac wedi bod yn aflwyddiannus? / *Have all other strategies to improve a learner's behaviour been put in place and been unsuccessful?*

Unrhyw sylwadau a wnaed gan y rhiant/gofalwr, y dysgwr a swyddog yr Awdurdod. / *Any observations made by the parents/guardian, the learner and the Authority's officer.*

Materion lle mae diffyg eglurder, lle mae angen rhagor o wybodaeth neu os yw'n ymddangos bod canllawiau wedi'u hanwybyddu. / *Matters where there is a lack of clarity, where more information is required os where it appears that guidelines have been ignored.*

A yw'r Pennaeth wedi cydymffurfio â'r weithdrefn wahardd ac a yw wedi talu sylw i ganllawiau Llywodraeth Cymru cyn penderfynu gwahardd y dysgwr? / *Has the Headteacher complied with the exclusion procedure and has he/she paid attention to Welsh Government's guidelines before deciding to exclude the learner?*

Polisïau priodol yr ysgol, gan gynnwys y polisïau ymddygiad, cyfleoedd cyfartal, atal bwlio, ADY a chydraddoldeb hiliol a gyhoeddwyd gan yr ysgol. / *The school's appropriate policies, including the behaviour policies, equal opportunities, prevention of bullying, ALN and racial equality published by the school.*

## **Pa benderfyniad sydd yn bosib?**
## *What resolution is possible?*

Dim ond dau ddewis sydd ar gael i'r Panel Disgyblu sef: / *The Disciplinary Panel only has two options:*

Cadarnhau penderfyniad y Pennaeth i wahardd yn barhaol, / *Confirm the Headteacher's decision for permanent exclusion,*

**NEU /** ***OR***

Gwrthdroi penderfyniad y Pennaeth a chaniatáu ail-fynediad i'r Ysgol. / *Overturn the decision of the Headteacher and allow re-admission to the School.*

# Gwaharddiadau
# *Exclusions*

<u>Camau nesaf yn dilyn y cyfarfod / *Next steps following the meeting*</u>

Ar ddiwedd y cyfarfod mae dyletswyddau'r Panel Disgyblu yn dod i ben. / *At the end of the meeting, the Disciplinary Panel's duties end.*

Pan fydd Panel Disgyblu yn cadarnhau gwaharddiad parhaol mae gan y teulu hawl i ofyn am Apêl Annibynnol. / *When the Disciplinary Panel confirms a permanent exclusion, the family has a right to request an Independent Appeal.*

Mae gan y Panel yma dri dewis sef: / *This Panel has three options:*

Cadarnhau penderfyniad y Pennaeth, / *Confirm the Headteacher's decision,*

Gwrthdroi penderfyniad y Pennaeth a chaniatáu ail-fynediad i'r Ysgol, / *Overturn the decision of the Headteacher and allow re-admission to the School.*

Gwrthdroi penderfyniad y Pennaeth ond cyfeirio mynediad i Ysgol arall. / *Overturn the Headteacher's decision but refer admission to another School.*

# Gorffen!/ *The End!*

## Diolch am eich gwrandawiad

## *Thank you for listening*